Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

POL_006

Polisi Diogelu Data

Polisi Allanol a Mewnol

Adolygu

Fersiwn	Polisi Gweithredol	Perchennog y Ddogfen	Dyddiad/Sbardunau Adolygu
2	4 Medi 2019	Swyddog Diogelu Data	Bob 3 blynedd. Newidiadau deddfwriaethol/ sefydliadol. Newidiadau i'r risgiau i ddiogelwch.

Cynulleidfa Darged

Holl gyflogeion, Aelodau, gwirfoddolwyr, contractwyr, ymgynghorwyr neu bartneriaid yr Awdurdod sydd â mynediad at unrhyw ddata personol a ddelir ar ran yr Awdurdod.

Ymgyngoriadau

Grŵp	Dyddiad
Staff a Chynrychiolwyr Staff	9 Awst 2019

Cymeradwyaeth

Mae'n ofynnol cael y gymeradwyaeth ganlynol i'r ddogfen hon.

Cymeradwywyd gan	Enw	Dyddiad	Llofnod
Tîm Arwain	Ar Ffeil	25 Mehefin 2019	Ar Ffeil
Awdurdod Parc Cenedlaethol	Ar Ffeil	4 Medi 2019	Ar Ffeil

Cynnwys

1. Datganiad Polisi

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr Awdurdod) yn llwyr ymrwymedig i gydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a chyfreithiau Diogelu Data perthnasol eraill.

Felly bydd yr Awdurdod yn amcanu at sicrhau bod holl gyflogeion, Aelodau, gwirfoddolwyr, contractwyr, ymgynghorwyr neu bartneriaid yr Awdurdod sydd â mynediad at unrhyw ddata personol a ddelir ar ran yr Awdurdod yn llwyr ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau dan y rheoliadau a'r cyfreithiau perthnasol ac yn ymlynu wrthynt.

Manylion Cyswllt Swyddog Diogelu Data'r Awdurdod

Enw: Sarah Burns
Rhif Cyswllt: 01646 624800
E-bost Cyswllt: dpo@pembrokeshirecoast.org.uk
Cyfeiriad Gohebu: Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY

2. Diben a Chwmpas

2.1 Mae angen i'r Awdurdod gasglu a defnyddio rhai mathau penodol o wybodaeth am bobl y mae'n ymdrin â hwy er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyflogeion, Aelodau, gwirfoddolwyr, cyflenwyr, cleientiaid, cwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaethau, cefnogwyr presennol, blaenorol a darpar rai yn ogystal ag eraill y mae'n cyfathrebu gyda hwy.

2.2 Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod gasglu a defnyddio mathau penodol o wybodaeth i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a hefyd i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a nodir gan y Llywodraeth.

2.3 Mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn trin gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon ac yn gywir. Mae hyn yn hanfodol i weithrediadau llwyddiannus, cyflawni ein cyfrifoldebau statudol a chynnal hyder y cyhoedd yn yr Awdurdod. Fel rheolydd data rydym yn nodi'r sail gyfreithiol i brosesu'r data yr ydym yn ei gasglu a'i ddefnyddio yng Nghofrestr Data'r Awdurdod.

2.4 Diben y polisi hwn yw egluro sut y bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a chyfreithiau diogelu data perthnasol. Mae'n cynnwys mesurau sefydliadol a chyfrifoldebau unigol sydd wedi'u bwriadu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r egwyddorion Diogelu Data ac yn parchu hawliau unigolion.

2.5 Nid yw gweithdrefnau a chanllawiau manwl yn rhan o'r ddogfen bolisi drosfwaol hon. Gellir cael mynediad at Ganllawiau Diogelu Data ar gyfer staff trwy Parcnet ac mae gweithdrefnau adrannol ar gael gan Arweinwyr Tîm a phenaethiaid meysydd gwasanaeth perthnasol.

3. Y Cyd-destun Cyfreithiol

3.1 Caiff diogelu data ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

a) Deddf Diogelu Data 2018;
b) Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data;
c) Deddf Hawliau Dynol 1998;
d) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
e) Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004;
f) Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990;
g) Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003;
h) Deddf Cydraddoldeb 2010;
i) Dyletswydd cyfrinachedd o dan y gyfraith gyffredin: Dyletswydd cyflogwr o dan y gyfraith gyffredin tuag at gyflogeion i gynnal perthynas o gyd-ymddiriedaeth a chyd-gyfrinachedd.

4. Beth yw Gwybodaeth Bersonol?

Ceir dau wahanol fath o 'wybodaeth bersonol' yn y Deyrnas Unedig ac maent yn ymdrin â gwahanol gategorïau o wybodaeth, sef:

Data Personol:

4.1 Gall hyn fod yn unrhyw beth sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod person byw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

4.2 Gall hyn gynnwys: enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhifau ffôn cartref neu ffôn symudol personol, gwybodaeth cyflogaeth, manylion banc, rhifau yswiriant gwladol, nodiadau ffeiliau sy'n gysylltiedig ag unigolyn, delweddau gan gynnwys deunydd teledu cylch cyfyng, dynodwyr ar-lein a chyfeiriadau IP. Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Gall y data hwn gael ei gadw ar ffurf copi caled neu'n electronig.

4.3 Mae'n cynnwys data personol awtomataidd a gall hefyd gwmpasu data dan ffugenw os gellir adnabod person ohono.

Data Personol Sensitif:

4.4 Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 yn nodi 'categorïau arbennig' o wybodaeth bersonol sensitif y mae angen ei diogelu'n fwy.

4.5 Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am hil person, ei darddiad ethnig, ei wleidyddiaeth, ei grefydd, aelodaeth o undeb llafur, ei geneteg, biometreg (lle caiff ei defnyddio at ddibenion adnabod), ei iechyd, ei fywyd rhywiol; neu ei gyfeiriadedd rhywiol.

Data Monitro Cydraddoldeb

4.6 Er mwyn cyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb yr Awdurdod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, bydd yr Awdurdod yn casglu ac yn prosesu data monitro cydraddoldeb gan ymgeiswyr, cyflogeion a rhai defnyddwyr gwasanaethau. Bydd gwrthrychau data'n cael eu gwneud yn ymwybodol mai dyma'r rheswm pam fod y data'n cael ei gasglu a sut y caiff y data ei storio, ei gyrchu, ei ddefnyddio a sut yr adroddir arno.

5. Gwrthrychau, Rheolyddion a Phroseswyr Data

5.1 Ystyr **Gwrthrych Data** yw unigolyn y mae'r data'n ymwneud â hwy. Ar gyfer yr Awdurdod gall gwrthrychau data gynnwys cyflogeion, ymgeiswyr am swyddi, Aelodau, gwirfoddolwyr, cyflenwyr, contractwyr, cwsmeriaid, mynychwyr digwyddiadau, cleientiaid, defnyddwyr gwasanaethau, ymwelwyr â'r wefan, cefnogwyr ac eraill yr ydym yn cyfathrebu neu'n cysylltu gyda hwy.

5.2 Ystyr **Rheolydd Data** yw sefydliad, neu berson, sy'n pennu'r dibenion y bydd data personol yn cael ei brosesu ar eu cyfer a'r modd y gwneir hynny. Fel rheolydd data rydym yn nodi'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data a gesglir gennym ac a ddefnyddir gennym yng Nghofrestr Data'r Awdurdod.

5.3 Ystyr **Prosesydd Data** yw unrhyw sefydliad neu berson (ac eithrio un o gyflogeion y rheolydd data) sy'n prosesu data ar ran y rheolydd data. Lle caiff cronfeydd data'r Awdurdod eu lletya gan gwmnïau eraill yr Awdurdod yw'r rheolydd data o hyd ac mae'r cwmni lletya'n gweithredu fel y prosesydd data.

6. Egwyddorion Diogelu Data

6.1 Mae'r egwyddorion Diogelu Data'n nodi'r prif gyfrifoldebau y mae'n rhaid i'r Awdurdod a sefydliadau gydymffurfio â hwy'n gyfreithiol.

6.2 Mae'r egwyddorion diogelu data'n ei gwneud yn ofynnol *o dan* Erthygl 5 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data bod data:

a) Yn cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas ag unigolion;

b) Yn cael ei gasglu at ddibenion penodedig, eglur a dilys ac yn peidio â chael ei brosesu ymhellach mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny; ni ddylid ystyried bod prosesu pellach at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu at ddibenion ystadegol yn anghydnaws â'r dibenion cychwynnol;

c) Yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer;

d) Yn gywir a, lle y bo angen, yn cael ei ddiweddaru'n gyson; rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data personol sy'n anghywir, gan roi sylw i'r dibenion y caiff ei broses ar eu cyfer, yn cael ei ddileu neu ei gywiro heb oedi;

e) Yn cael ei gadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau'r data am ddim hwy nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y caiff y data personol ei brosesu ar eu cyfer; gellir storio data personol am gyfnodau hwy i'r graddau y bydd y data'n cael ei brosesu dim ond at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu at ddibenion ystadegol yn amodol ar weithredu'r mesurau technegol a sefydliadol priodol sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data er mwyn diogelu hawliau a rhyddid unigolion; ac

f) Yn cael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol, gan gynnwys ei ddiogelu rhag prosesu diawdurdod neu anghyfreithlon a rhag cael ei golli, ei ddifa neu ei ddifrodi ar ddamwain, gan ddefnyddio mesurau technegol neu sefydliadol priodol.

6.3 Mae Rheolyddion Data dan Erthygl 5(2) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn gyfrifol am gydymffurfio â'r egwyddorion hefyd a rhaid iddynt allu dangos eu bod yn cydymffurfio â hwy.

6.4 Er mwyn ateb gofynion yr egwyddorion, bydd yr Awdurdod yn:

a) Ymlynu'n llawn wrth yr amodau sy'n ymwneud â chasglu a defnyddio data personol mewn modd teg;
b) Cyflawni ei rwymedigaethau i nodi at ba ddibenion y caiff data personol ei ddefnyddio, gan eu rhestru yng nghofrestr data'r Awdurdod;
c) Casglu a phrosesu data personol priodol dim ond i'r graddau y mae ei angen i ateb gofynion gweithredol neu unrhyw ofynion cyfreithiol;
d) Sicrhau ansawdd data personol a ddefnyddir;
e) Cymhwyso gwiriadau llym i benderfynu am faint o amser y caiff data personol ei ddal;
f) Sicrhau bod hawliau unigolion y cedwir data personol amdanynt yn gallu cael eu harfer yn llawn dan gyfreithiau perthnasol;
g) Cymryd y mesurau diogelwch technegol a sefydliadol priodol i ddiogelu data personol;
h) Sicrhau nad yw data personol yn cael ei drosglwyddo dramor heb fesurau diogelu addas;
i) Bod â mecanweithiau atebolrwydd priodol gan gynnwys penodi Swyddog Diogelu Data, cynnal asesiadau effaith diogelu data a defnyddio cymalau perthnasol mewn contractau gyda phrosesyddion data.

7. Sail Gyfreithlon i Brosesu

7.1 Bydd yr Awdurdod yn casglu ac yn prosesu data personol dim ond i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion gweithredol neu i gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol. Caiff y diben ar gyfer prosesu data a'r seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu'r data ei nodi yng Nghofrestr Data'r Awdurdod.

7.2 Caiff y seiliau cyfreithlon i brosesu eu nodi yn Erthygl 6 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Rhaid bod o leiaf un o'r rhain yn berthnasol pan fo'r Awdurdod yn prosesu data personol:

(a) Cydsyniad: mae'r unigolyn wedi rhoi cydsyniad clir i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol.

(b) Contract: mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer contract sydd gennych gyda'r unigolyn, neu am bod yr unigolyn wedi gofyn i chi gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract.

(c) Rhwymedigaeth gyfreithiol: mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i chi gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau cytundebol).

(d) Buddiannau hanfodol: mae'r prosesu'n angenrheidiol i ddiogelu bywyd rhywun.

(e) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu'n angenrheidiol i chi gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich swyddogaethau swyddogol, ac mae sail glir i'r dasg neu'r swyddogaeth mewn cyfraith.

(f) Buddiannau dilys: mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer eich buddiannau dilys chi neu fuddiannau dilys trydydd parti oni bai bod rheswm da dros ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n bwysicach na'r buddiannau dilys hynny. (Ni all hyn fod yn berthnasol os ydych yn awdurdod cyhoeddus sy'n prosesu data i gyflawni eich tasgau swyddogol.)

7.3 Lle mae'r Awdurdod yn casglu ac yn prosesu data personol sensitif bydd yn sicrhau bod o leiaf un o'r amodau ar gyfer prosesu data mewn categori arbennig yn berthnasol a bydd yr amod yn cael ei restru yng nghofrestr data'r Awdurdod.

7.4 Yr amodau ar gyfer prosesu data mewn categori arbennig dan Erthygl 9(2) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yw:

(a) Mae gwrthrych y data wedi rhoi cydsyniad penodol i brosesu'r data personol hwnnw at un neu fwy nag un o'r dibenion dynodedig, ac eithrio lle mae cyfraith yr Undeb neu Aelod-Wladwriaeth yn amodi na all y gwaharddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 1 gael ei godi gan wrthrych y data;

(b) Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni rhwymedigaethau ac arfer hawliau penodol y rheolydd neu wrthrych y data ym maes cyflogaeth a nawdd cymdeithasol a chyfraith amddiffyniadau cymdeithasol i'r graddau y bo wedi'i

awdurdodi gan gyfraith yr Undeb neu Aelod-Wladwriaeth neu gydgytundeb yn unol â chyfraith Aelod-Wladwriaeth sy'n darparu ar gyfer trefniadau diogelu priodol ar gyfer hawliau sylfaenol a buddiannau gwrthrych y data;

(c) Mae prosesu'n angenrheidiol i amddiffyn buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu berson naturiol arall lle ma gwrthrych y data'n gorfforol neu'n gyfreithiol analluog i roi cydsyniad;

(d) Mae'r prosesu'n cael ei wneud yng nghwrs ei (g)weithgareddau dilys gyda threfniadau diogelu priodol gan sefydliad, cymdeithas neu gorff dielw arall â nod gwleidyddol, athronyddol, crefyddol neu undebol ac ar yr amod bod y prosesu'n ymwneud dim ond ag aelodau neu gyn-aelodau o'r corff neu â phobl sy'n cael cyswllt rheolaidd ag ef mewn perthynas â'i ddibenion ac nad yw'r data personol yn cael ei ddatgelu y tu allan i'r corff hwnnw heb gydsyniad gwrthrychau'r data;

(e) Mae prosesu'n ymwneud â data personol sy'n amlwg wedi'i wneud yn gyhoeddus gan wrthrych y data;

(f) Mae prosesu'n angenrheidiol i gadarnhau ffeithiau, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol neu pryd bynnag y mae llysoedd yn gweithredu yn eu cymhwyster barnwrol;

(g) Mae prosesu'n angenrheidiol am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol, ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-Wladwriaeth a ddylai fod yn gymesur â'r nod sy'n cael ei ganlyn, parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data a darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau gwrthrych y data;

(h) Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion meddyginiaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu gallu'r cyflogai i weithio, diagnosis meddygol, darparu gofal iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-Wladwriaeth neu yn unol â chontract gyda gweithiwr iechyd proffesiynol a chyda'r amodau ac yn amodol ar y trefniadau diogelu y cyfeirir atynt ym mharagraff 3

(i) Mae prosesu'n angenrheidiol am resymau sy'n ymwneud â budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, megis amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol, ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-Wladwriaeth sy'n darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a rhyddid gwrthrych y data, yn enwedig cyfrinachedd proffesiynol;

(j) Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion archifo er lles y cyhoedd, at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu at ddibenion ystadegol yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar gyfraith yr Undeb neu Aelod-Wladwriaeth a ddylai fod yn gymesur â'r nod sy'n cael ei ganlyn, parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data a darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau gwrthrych y data.

8. Cysyniad

8.1 Lle mae angen cydsyniad unigolyn i brosesu data personol rhaid i'r cydsyniad fod yn rhydd ac ar sail gwybodaeth a gellir ei newid unrhyw bryd.

8.2 Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018 yn pennu safon uchel ar gyfer cydsyniad. Rhaid i arwydd o gydsyniad fod yn diamwys a chynnwys gweithred gadarnhaol (optio i mewn). Ni chaniateir blychau optio i mewn a gafodd eu ticio ymlaen llaw. Mae opsiynau cydsynio unigol ('gronynnog') yn ofynnol ar gyfer gweithrediadau prosesu ar wahân. Dylai cydsyniad fod ar wahân i delerau ac amodau eraill ac ni ddylai fod yn un o'r rhagamodau wrth gofrestru ar gyfer gwasanaeth fel rheol.

8.3 Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018 yn rhoi hawl benodol i dynnu cydsyniad yn ôl. Bydd yr Awdurdod yn dweud wrth bobl am eu hawl i dynnu cydsyniad yn ôl, ac yn cynnig ffyrdd rhwydd iddynt dynnu cydsyniad yn ôl unrhyw bryd.

8.4 Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o achosion lle rhoddwyd cydsyniad.

8.5 Gallai dibynnu ar gydsyniad amhriodol neu annilys niweidio enw da'r Awdurdod – a gall hyn adael yr Awdurdod yn agored i ddirwyon mawr. Dim ond os gall gynnig dewis a rheolaeth go iawn i bobl o ran sut y caiff eu data ei ddefnyddio y bydd yr Awdurdod yn defnyddio cydsyniad fel sail gyfreithiol briodol, ac mae arno eisiau meithrin eu hymddiriedaeth a'u hymgysylltiad. Os na all yr Awdurdod gynnig dewis gwirioneddol, nid yw cydsyniad yn briodol. Er enghraifft, achosion lle byddem yn dal i brosesu'r data personol heb gydsyniad; yn yr achosion hyn mae gofyn am gydsyniad yn gamarweiniol ac yn annheg yn ei hanfod. Os yw'r Awdurdod yn gwneud cydsyniad yn un o'r rhagofynion ar gyfer gwasanaeth, mae'n annhebygol o fod y sail gyfreithlon fwyaf priodol.

8.6 Mae nodiadau cyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi y "Dylai awdurdodau cyhoeddus, cyflogwyr a sefydliadau eraill sydd mewn sefyllfa o bŵer dros unigolion osgoi dibynnu ar gydsyniad oni bai eu bod yn hyderus y gallant ddangos ei fod wedi'i roi o wirfodd." Mae hyn yn arbennig o berthnasol i feysydd sy'n ymwneud yn benodol â swyddogaethau cyhoeddus yr Awdurdod.

8.7 Pan fo data sensitif yn cael ei gasglu, bydd yr Awdurdod yn cael cydsyniad penodol yr unigolyn ar gyfer y prosesu hwn oni bai bod sail gyfreithiol eglur arall i brosesu data personol sensitif wedi'i hadnabod.

8.8 Byddir yn gofyn i unrhyw berson y mae ei fanylion (gan gynnwys ffotograffau) yn mynd i gael eu defnyddio i hyrwyddo gwaith yr Awdurdod trwy gyhoeddiadau, gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol roi cydsyniad. Ar yr

adeg y caiff yr wybodaeth ei chynnwys neu ei chasglu, bydd yr holl unigolion hynny yn cael eu hysbysu'n briodol am ganlyniadau lledaenu eu data ledled y byd.

8.9 Pan fo data personol yn cael ei geisio at ddiben newydd, os oes angen bydd cydsyniad newydd yn cael ei geisio.

9. Cydsyniad a Delweddau

9.1 Mae ffotograffau'n helpu staff i ddangos ehangder eu gwaith, ac fe'u defnyddir at ddibenion cyhoeddusrwydd wrth hyrwyddo gwaith yr Awdurdod. Dylai ffotograffau a delweddau symudol lle mae pobl yn adnabyddadwy gael eu storio'n ofalus, gyda chydsyniad wedi'i atodi neu gyda chroesgyfeiriad ato. Wedyn dylai cyfranogwyr gael eu gwneud yn ymwybodol sut y bydd delweddau y maent yn ymddangos ynddynt yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod wrth roi cydsyniad.

9.2 Dylid cymryd gofal arbennig mewn perthynas â chymryd, storio a defnyddio ffotograffau o blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Dylai staff gyfeirio at ganllawiau a ddarperir ynghylch cymryd ffotograffau a delweddau symudol at ddiben gwaith yn natganiad diogelu'r Awdurdod a dilyn y canllawiau hynny.

9.3 Dylai staff ddilyn canllawiau'r Awdurdod wrth gymryd ffotograffau o dyrfaoedd o bobl lle na fydd angen cydsyniad o bosibl.

10. Hawliau'r Unigolyn

10.1 Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018 yn darparu'r hawliau canlynol ar gyfer Gwrthrychau Data:

1. Yr hawl i gael eu hysbysu;
2. Hawl mynediad;
3. Hawl i gael cywiro data;
4. Hawl i gael dileu data;
5. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu;
6. Yr hawl i gludadwyedd data;
7. Yr hawl i wrthwynebu;
8. Hawliau mewn perthynas â phroffilio a phenderfyniadau awtomataidd.

10.2 Mae hawl gyfreithiol prosesu'n dylanwadu ar ba hawliau sydd ar gael i'r unigolyn. Mae cofrestr data'r Awdurdod yn nodi pa hawliau sydd ar gael i'r unigolyn mewn perthynas â gwybodaeth a brosesir gan yr Awdurdod o ran ei sail gyfreithlon gyfatebol i brosesu.

11. Gwybodaeth Preifatrwydd – Hysbysiadau Preifatrwydd/ Prosesu Teg

11.1 Hyd y bo'n ymarferol, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod yr holl unigolion y mae eu data'n cael ei brosesu'n ymwybodol o'r ffordd y bydd yr wybodaeth honno'n cael ei dal, ei defnyddio (diben prosesu), cyfnod cadw'r data hwnnw a chyda phwy y bydd yn cael ei rannu. Lle y bo'n bosibl, bydd unigolion yn cael eu hysbysu ynghylch derbynyddion tebygol yr wybodaeth – pa un a yw'r derbynyddion yn fewnol ynteu'n allanol i'r Awdurdod.

11.2 Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu pan fo data personol yn cael ei chasglu gyntaf, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar.

11.3 Byddir yn trefnu bod hysbysiad preifatrwydd trosfwaol yr Awdurdod ar gael ar wefan yr Awdurdod [4].

11.4 Bydd gwybodaeth a ddarperir ar gyfer pobl gan yr Awdurdod mewn hysbysiadau preifatrwydd/prosesu teg yn gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy, yn hygyrch iawn, ac yn defnyddio iaith ddiamwys a chlir. Bydd yr hysbysiadau hyn wedi'u teilwra ar gyfer y gynulleidfa y maent yn cael eu darparu ar ei chyfer. Pan fo data personol yn mynd i gael ei ddefnyddio ar gyfer diben newydd yna bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu ar gyfer gwrthrych y data eto ac os oes angen bydd cydsyniad newydd yn cael ei geisio.

11.5 Gall pobl ofyn am ragor o fanylion am y modd y caiff eu data personol ei ddefnyddio unrhyw bryd ac, os ydynt yn anfodlon ar y modd y caiff eu data ei ddefnyddio gallant gyfleu cwyn.

11.6 Bydd yr Awdurdod yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu a, lle y bo angen, diweddaru gwybodaeth a hysbysiadau preifatrwydd. Bydd y broses hon hefyd wedi'i halinio â'r newidiadau y mae eu hangen ar ôl unrhyw adolygiad o'r gofrestr data neu ddiweddariad iddi.

12. Cywirdeb a Chywiro Data

12.1 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau, hyd y bo'n ymarferol, bod yr wybodaeth y mae'n ei dal yn gywir ac yn gyfoes.

12.2 Os ceir bod data personol yn anghywir, bydd hyn yn cael ei gywiro cyn gynted â phosibl.

12.3 Gall gwybodaeth bersonol, megis manylion cyswllt, gael ei rhannu o fewn yr Awdurdod lle y bo angen i gadw cofnodion yn gywir ac yn gyfoes, ac er mwyn darparu gwasanaeth gwell ar gyfer unigolion.

12.4 Gall cofnodion gynnwys barn broffesiynol ynglŷn ag unigolion ond ni fydd cyflogeion yn cofnodi unrhyw farn bersonol ynglŷn ag unigolion.

13. Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth

13.1 O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018, mae gan unigolion hawl i gael:

a) Cadarnhad bod eu data'n cael ei brosesu;
b) Mynediad at eu data personol; ac
c) Gwybodaeth ategol arall – mae hyn yn cyfateb i raddau helaeth â'r wybodaeth y dylid ei darparu mewn hysbysiad preifatrwydd/ prosesu teg.

13.2 Y rheswm dros ganiatáu i unigolion gael mynediad at eu data personol yw fel eu bod yn ymwybodol o gyfreithlondeb y prosesu a gallu ei wirio.

13.3 Gall person sy'n dymuno arfer yr hawl hon gyflwyno cais i'r Awdurdod yn ysgrifenedig neu ar lafar.

13.4 Gall Gwrthrychau Data lenwi ffurflen Cais Gwrthrych am Wybodaeth yr Awdurdod [5] hefyd. Mae'r ffurflen hon ar gael gan Reolwr Gweinyddu a Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod ac o wefan yr Awdurdod. Os oes ar unigolyn angen cymorth i gwblhau'r ffurflen neu os oes angen y ffurflen ar unigolyn mewn fformat arall dylai gysylltu â'r Rheolwr Gweinyddu a Gwasanaethau Democrataidd.

13.5 Byddwn yn gwirio pwy yw'r sawl sy'n cyflwyno'r cais, gan ddefnyddio 'dulliau rhesymol'.

13.6 Os cyflwynir y cais yn electronig, byddwn yn darparu'r wybodaeth mewn fformat electronig a ddefnyddir yn gyffredin.

13.7 Yn unol â rheoliadau bydd copi o'r wybodaeth yn cael ei ddarparu'n rhad ac am ddim fel sy'n ofynnol dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn codi 'ffi resymol' pan fo cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, yn enwedig os yw'n ailadroddus. Gall yr Awdurdod godi ffi resymol am gydymffurfio â cheisiadau am gopïau pellach o'r un wybodaeth. Bydd y ffi'n seiliedig ar gost weinyddol darparu'r wybodaeth.

13.8 Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu o fewn mis i gael y cais. Lle mae cais yn gymhleth neu'n niferus bydd yr Awdurdod yn ceisio rhoi estyniad o ddau fis pellach ar y cyfnod cydymffurfio gyda chydsyniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn yr achosion hyn bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r unigolyn o fewn mis i gael y cais ac yn egluro pam fod angen yr estyniad. Os gwneir y cais yn electronig, bydd yr awdurdod yn darparu'r wybodaeth mewn fformat electronig a ddefnyddir yn gyffredin.

13.9 Os yw ceisiadau'n amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, yn enwedig am eu bod yn ailadroddus, gall yr Awdurdod wrthod ymateb. Os yw'r Awdurdod yn gwrthod ymateb i gais byddwn yn egluro pam wrth yr unigolyn, gan ei hysbysu o'i hawl i gyfleu cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac i rwymedi barnwrol o fewn mis.

13.10 Lle mae'r Awdurdod yn prosesu swm mawr o wybodaeth am unigolyn, mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn caniatáu i ni ofyn i'r unigolyn fanylu ar yr wybodaeth y mae'r cais am wybodaeth yn ymwneud â hi (Cronicliad 63). Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cynnwys esemptiad ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â swm mawr o ddata, ond efallai y bydd yr Awdurdod yn gallu ystyried a yw'r cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol.

14. Mynediad Trydydd Parti at Wybodaeth

14.1 Lle gwneir cais am ddata personol gan drydydd parti ar ran gwrthrych y data, dylai gael ei drin fel cais gwrthrych am wybodaeth. Mae gofyn cael tystiolaeth bod gan y trydydd parti hawl i weithredu yn y ffordd yma, megis datganiad ysgrifenedig gan wrthrych y data neu atwrneiaeth barhaus. Efallai y bydd angen ymgynghori â gweithwyr proffesiynol priodol cyn y gwneir penderfyniad i ryddhau'r data personol.

14.2 Yn achlysurol efallai y bydd gwybodaeth trydydd parti'n rhan o'r data a echdynnir mewn ymateb i gais gwrthrych am wybodaeth. Wrth benderfynu a ddylid rhyddhau'r wybodaeth hon neu beidio, bydd yr Awdurdod yn ystyried y canlynol:

a) Unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd sydd arno i'r trydydd parti;
b) Ymgeisiau i gael cydsyniad gan y trydydd parti;
c) Unrhyw hysbysiad datganedig gan y trydydd parti i wrthod rhoi cydsyniad;
d) Disgwyliadau'r trydydd parti mewn perthynas â'r data hwnnw.

14.3 Pan fo cais am ddata personol yn cael ei wneud gan drydydd parti ac nid ar ran gwrthrych y data, dylai'r Awdurdod ystyried y cais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ogystal â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data. Dylai ystyried a fyddai rhyddhau'r data personol yn torri unrhyw un o'r egwyddorion Diogelu Data ac yn arbennig pa un a yw unrhyw esemptiadau dan ddeddfwriaeth Diogelu Data yn berthnasol. Dylai cyflogeion ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data a Rheolwr Gweinyddu a Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod. Ni fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu gyda thrydydd partïon oni bai y caniateir hynny'n benodol mewn cyfraith a bod cyfiawnhad dros hynny yn y sefyllfa benodol.

14.4 Mae'r Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth yn ymdrin â cheisiadau am wybodaeth ynglŷn â thrydydd partïon, a bydd gwybodaeth yn cael ei chadw'n ôl lle byddai ei datgelu'n torri unrhyw un o'r egwyddorion Diogelu Data. Lle nad yw'r sawl sy'n ceisio'r wybodaeth yn datgan rheswm penodol dros ofyn am yr wybodaeth yna dylid dilyn y polisi Rhyddid Gwybodaeth. Rhaid i ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth beidio ag ystyried y rhesymau dros y cais.

14.5 Pan fo rheswm penodol dros ofyn am yr wybodaeth, efallai y bydd esemptiad dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn berthnasol. Enghreifftiau yw lle mae'n ofynnol cael gwybodaeth i atal neu ddatrys trosedd, dal neu erlyn troseddwyr neu asesu neu gasglu treth. Os oes esemptiad priodol dan ddeddfwriaeth Diogelu Data yn briodol fel na fydd yr egwyddorion Diogelu Data'n cael eu torri, fel arfer bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r cais.

14.6 Lle nad yw'r Awdurdod wedi'i argyhoeddi bod gan y trydydd parti hawl i'r data personol, neu fod esemptiadau dan ddeddfwriaeth Diogelu Data'n berthnasol, ac y byddai rhyddhau gwybodaeth yn torri'r egwyddorion Diogelu Data, bydd y data personol yn cael ei gadw'n ôl a dim ond os dangosir Gorchymyn Llys y bydd yn cael ei ryddhau.

15. Rhannu Gwybodaeth

15.1 Mae rhannu gwybodaeth yn digwydd pan fo sefydliad yn rhannu gwybodaeth am wrthrych data er mwyn darparu gwasanaeth yn well neu lle mae er budd y gwrthrych data hwnnw.

15.2 Mae'r Awdurdod yn hyrwyddo'r arfer o rannu gwybodaeth lle mae hynny er budd gwrthrych y data. Fodd bynnag, ni fydd data sensitif personol (data categori arbennig) yn cael ei rannu oni bai bod hynny mewn cysylltiad â'r prif ddiben y casglwyd yr wybodaeth ar ei gyfer, neu fod gwrthrych y data wedi rhoi ei ganiatâd yn benodol i'r wybodaeth gael ei rhannu at y diben hwn, neu fod darpariaeth gyfreithiol arall sy'n ymwneud â phrosesu data categori arbennig yn caniatáu rhannu gwybodaeth o'r fath.

15.3 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod prosesau a dogfennaeth ategol ar gael i staff yr Awdurdod fel eu bod yn deall sut i rannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn gyfreithlon. Lle mae cyflogai sy'n gweithredu â phob ewyllys da wedi rhannu gwybodaeth yn unol â'r prosesau a dogfennaeth ategol a grybwyllwyd uchod, ni ddylai wynebu camau disgyblu fel arfer.

15.4 Dylai rhannu setiau mawr o wybodaeth neu rannu rheolaidd drosodd a throsodd ddigwydd dan gytundeb ysgrifenedig i sicrhau y cydymffurfir yn barhaus â'r cyfreithiau diogelu data a bod trefniadau ychwanegol yn gallu cael eu hystyried a'u rhoi yn eu lle.

15.5 Gall yr Awdurdod ymrwymo i drefniadau rhannu data gyda chyrff cyhoeddus eraill. Lle mae hyn yn digwydd bydd yr Awdurdod yn gwneud hynny yn unol â'r egwyddorion Diogelu Data a threfniadau ffurfiol ar gyfer rhannu data, gan ddilyn arfer gorau a nodir gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru [1].

16. Cadw a Dileu

16.1 Bydd defnydd yr Awdurdod o ddata personol yn cydymffurfio â'i Restr Cadw Cofnodion sy'n cynnwys y gwahanol fathau o gofnodion a ddelir gan yr Awdurdod. Mae gwybodaeth am Restrau Cadw Cofnodion wedi'i chynnwys yng nghofrestr data'r Awdurdod.

16.2 Dim ond am gyhyd ag sy'n angenrheidiol y bydd gwybodaeth yn cael ei dal ac ar ôl hynny bydd y manylion fel arfer yn cael eu dileu neu eu gwaredu. Lle caiff manylion unigolion eu storio am resymau hanesyddol neu archifo hirdymor, a lle y bo'n angenrheidiol cadw'r manylion personol o fewn y cofnodion, bydd hynny'n cael ei wneud o fewn gofynion y ddeddfwriaeth.

16.3 Bydd data personol afraid yn cael ei ddifa gan ddefnyddio gweithdrefn yr Awdurdod ar gyfer gwaredu gwastraff cyfrinachol a dileu data electronig. Bydd cymalau mewn contractau gyda phrosesyddion data y mae'r Awdurdod yn eu defnyddio'n cynnwys y gofyniad i ddileu neu ddychwelyd yr holl ddata personol i'r rheolydd fel a ofynnir ar ddiwedd y contract.

16.4 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod prosesau perthnasol yn eu lle i'w gwneud yn bosibl dileu data lle mae gwrthrych data'n dymuno arfer ei hawl i gael dileu ei ddata personol a lle mae gan y gwrthrych hawl bod y weithred ddileu hon yn digwydd. Bydd yr Awdurdod yn dilyn canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch yr Hawl i Ddileu lle gwneir ceisiadau.

17. Diogelwch Gwybodaeth

17.1 Bydd yr Awdurdod yn gweithredu mesurau diogelwch technegol a sefydliadol priodol fel bod staff diawdurdod ac unigolion eraill yn cael eu hatal rhag cael mynediad at wybodaeth bersonol.

17.2 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod diogelwch gwybodaeth gwael yn gadael systemau a gwasanaethau'r Awdurdod mewn perygl ac y gallai achosi niwed a thrallod go iawn i unigolion. Mae niwed y gall colli neu gamddefnyddio data personol ei achosi'n cynnwys:

a) Twyll hunaniaeth;
b) Trafodion ffug â cherdyn credyd;
c) Targedu unigolion gan dwyllwyr, a hynny o bosibl yn cael ei wneud yn fwy argyhoeddiadol gan ddata personol wedi'i beryglu;
d) Tystion a gwrthwynebwyr ceisiadau cynllunio'n cael eu rhoi mewn perygl o niwed corfforol neu o gal eu bygwth;
e) Datgelu cyfeiriadau pobl agored i niwed a'r rhai sy'n wynebu risg o drais domestig neu aflonyddu;
f) Ceisiadau ffug am gredydau treth;
g) Twyll morgais;
h) Gwahaniaethu;
i) Embaras personol ac effaith ar lesiant yr unigolyn yr effeithir arno/arni.

17.3 Rhaid i gyflogai gyrchu dim ond y data personol y mae angen iddynt ei ddefnyddio fel rhan o'u swydd. Gall mynediad amhriodol neu ddiawdurdod arwain at gamau disgyblu, gan gynnwys diswyddo ac erlyniad troseddol.

17.4 Mae gan yr Awdurdod Bolisi Defnyddwyr TGCh sy'n berthnasol i systemau electronig sy'n cynnwys data personol. Caiff Polisi Gwybodaeth a Diogelwch Data'r Awdurdod ei reoli gan y Pennaeth TGCh. Dylid hysbysu'r ddesg gymorth TGCh ynghylch pob digwyddiad diogelwch TGCh.

17.5 Bydd data personol a ddelir ar gyfrifiaduron a systemau cyfrifiadurol yn cael ei ddiogelu gan reolaethau cyfrinair o'r un math â phroffil defnyddiwr, bydd yn cael ei amgryptio lle y bo'n bosibl a lle y bo angen trywyddion archwilio a mynediad i gadarnhau bod pob defnyddiwr wedi'i awdurdodi'n llawn.

17.6 Bydd ffeiliau papur a chofnodion neu ddogfennau papur eraill sy'n cynnwys data personol/sensitif yn cael eu cadw mewn amgylchedd diogel a bydd mynediad atynt ar sail angen gwybod yn unig.

17.7 Bydd yr holl reolwyr, arweinwyr tîm a staff o fewn adrannau'r Awdurdod ac Aelodau'r Awdurdod yn cymryd camau i sicrhau bod data personol yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser rhag cael ei golli neu ei ddatgelu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon.

17.8 Dylai Rheolwyr ac Arweinwyr Tîm sicrhau bod gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol yn eu lle ar gyfer eu hadran neu dîm a bod staff yn eu tîm ac adran yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn ac yn eu dilyn.

17.9 Gall cyflogeion sy'n prosesu data personol y tu allan i'r swyddfa (e.e. ar safle, yn adeilad cleient, gartref) wneud hyn dim ond gyda chydsyniad datganedig eu rheolwr. Dylai staff ddilyn gweithdrefnau perthnasol i gadw'r wybodaeth hon yn ddiogel.

17.10 Ni ddylid ceisio cael mynediad at ddata personol y tu allan i'r Awdurdod gan ddefnyddio systemau mynediad anniogel (mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau symudol y tu allan i'r DU oni bai bod y rhwydwaith wedi cael ei wirio rhag blaen a bod hynny wedi cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data).

17.11 Bydd profion ar systemau'n cael eu cynnal gan ddefnyddio data personol dim ond lle mae mesurau diogelu digonol yn eu lle ac ni fyddant yn cael eu cynnal ar gronfeydd data byw gan gyrchu data sensitif personol.

17.12 Ni fydd data personol yn cael ei drosglwyddo y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop heb gymeradwyaeth y Swyddog Diogelu Data.

17.13 Bydd Diogelwch Data'n cael ei ystyried fel rhan o asesiadau effaith diogelu data. Bydd mesurau diogelwch ar gyfer gwahanol setiau o ddata'n cael eu rhestru o fewn cofrestr data'r Awdurdod.

17.14 Bydd gweithdrefnau priodol yn eu lle ar gyfer gwaredu gwastraff papur a data electronig sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol mewn modd diogel.

17.15 Dylai pob achos o danseilio diogelwch data (ni waeth pa mor fach ydynt) gael eu gwneud yn hysbys trwy'r broses a nodir o fewn y Canllawiau Diogelu Data ar gyfer Staff.

17.16 Bydd trefniadau diogelwch yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, byddir yn ymchwilio i bob achos o danseilio diogelwch yr hysbysir yn eu cylch neu wendidau posibl a, lle y bo'n bosibl, bydd mesurau pellach neu eraill yn cael eu cyflwyno i ddiogelu'r data.

18. Atebolrwydd a Llywodraethu

18.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu prosesau perthnasol a chymesur i hybu atebolrwydd a llywodraethu o ran y modd y mae'n casglu, yn prosesu ac yn

defnyddio gwybodaeth bersonol. Nod y mesurau hyn yw lleihau i'r eithaf y risg o danseilio diogelwch data, rhoi anogaeth i barhau i wella arferion rheoli data a chynnal yr arfer o ddiogelu data personol.

19. Swyddog Diogelu Data

19.1 Mae dyletswydd ddeddfwriaethol ar yr Awdurdod fel awdurdod Cyhoeddus i benodi Swyddog Diogelu Data.

19.2 Bydd Swyddog Diogelu Data penodedig yr Awdurdod yn:

a) Hysbysu a chynghori'r Awdurdod a'i gyflogeion ynghylch eu rhwymedigaethau i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data;
b) Monitro'r modd y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth diogelu data, ac â pholisïau'r Awdurdod, gan gynnwys rheoli gweithgareddau diogelu data mewnol, codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu data, hyfforddi staff a chynnal archwiliadau mewnol;
c) Cynghori ar asesiadau effaith diogelu data a'u monitro;
d) Cydweithredu gyda'r awdurdod goruchwyliol;
e) Bod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer awdurdodau goruchwyliol ac ar gyfer unigolion y mae eu data'n cael ei brosesu (cyflogeion, cwsmeriaid a.y.b.). Bydd eu manylion cyswllt yn y gwaith ar gael yn rhwydd i gyflogeion yr Awdurdod, i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a phobl y mae'r Awdurdod yn prosesu eu data personol;
f) Meddu ar brofiad a gwybodaeth arbenigol am gyfraith diogelu data yn ogystal ag anghenion diogelu data a gweithgarwch prosesu data'r Awdurdod;
g) Cael yr awdurdod i weithredu'n annibynnol ar faterion sy'n ymwneud â chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data yn yr Awdurdod;
h) Adrodd wrth Aelodau, y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli;
i) Adrodd yn flynyddol wrth y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol ar berfformiad yr Awdurdod o ran cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data;
j) Rhoi cyngor seiliedig ar risg i'r sefydliad. Lle canfyddir risg uwch o ganlyniad, er enghraifft, i newid yn natur y data a gaiff ei gasglu, neu sut y caiff y data'i brosesu gan yr Awdurdod, bydd y Swyddog Diogelu Data'n sicrhau bod hyn yn cael eu adlewyrchu yng nghofrestr risg yr Awdurdod;
k) Cyflwyno'r hysbysiad cofrestru ac unrhyw ddiwygiadau (os oes angen) i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

19.3 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau'r canlynol:

a) Bod y Swyddog Diogelu Data'n ymwneud yn glòs ac mewn modd amserol â'r holl faterion diogelu data;

b) Mae'r Swyddog Diogelu Data'n atebol i Aelodau, y Prif Weithredwr neu'r Uwch Dîm Rheoli;
c) Mae'r Swyddog Diogelu Data'n gweithredu'n annibynnol ac nid yw'n cael ei ddiswyddo na'i gosbi am gyflawni ei dasgau;
d) Y darperir adnoddau digonol (digon o amser, adnoddau ariannol, seilwaith a, lle y bo'n briodol, staff) i alluogi'r Swyddog Diogelu Data i gyflawni ei rwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth diogelu data, ac i gynnal ei lefel arbenigol o wybodaeth;
e) Bod y Swyddog Diogelu Data'n cael mynediad priodol at ddata personol a gweithgareddau prosesu data;
f) Bod y Swyddog Diogelu Data'n cael mynediad priodol at wasanaethau eraill yn yr Awdurdod fel ei fod yn gallu cael cymorth, mewnbwn neu wybodaeth hanfodol;
g) Bod cyngor y Swyddog Diogelu Data'n cael ei geisio wrth gynnal Asesiadau Effaith Diogelu Data;
h) Bod manylion y Swyddog Diogelu Data'n cael eu cofnodi fel rhan o'n cofnodion o weithgareddau prosesu;
i) Os yw'n penderfynu peidio â dilyn y cyngor a roddir gan ei Swyddog Diogelu Data penodedig, ei fod yn dogfennu ei resymau i helpu i ddangos atebolrwydd.

19.4 Gall Swyddog Diogelu Data'r Awdurdod fod yn gyflogai presennol neu gael ei benodi o'r tu allan. Lle mae Swyddog Diogelu Data'n un o'r cyflogeion presennol bydd yr Awdurdod yn sicrhau nad yw ei rôl bresennol yn arwain at wrthdaro buddiannau â'i brif dasgau fel Swyddog Diogelu Data a bydd yr Awdurdod yn cymryd unrhyw gamau lliniaru i'r perwyl hwn. Ni fydd y Swyddog Diogelu Data'n dal swydd yn yr Awdurdod sy'n peri iddynt bennu'r dibenion a'r modd ar gyfer prosesu data personol. Ni fydd disgwyl i'r Swyddog Diogelu Data reoli amcanion sydd mewn cystadleuaeth â'i gilydd a allai beri i ddiogelu data fod â rôl eilaidd o'i gymharu â buddiannau busnes.

19.5 Nid yw'r Swyddog Diogelu Data'n atebol yn bersonol am gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Fel y rheolydd neu'r prosesydd mae'r Awdurdod yn dal i fod yn gyfrifol am gydymffurfio dan ddeddfwriaeth diogelu data.

20. Asesiadau Effaith Diogelu Data

20.1 Mae asesiad effaith diogelu data yn broses y bydd yr Awdurdod yn ei defnyddio i helpu i adnabod a lleihau i'r eithaf y risgiau i ddiogelu data a achosir gan brosiect.

20.2 Rhaid i'r Awdurdod gwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data ar gyfer y mathau canlynol o weithredoedd prosesu a restrir neu unrhyw brosesu arall sy'n debygol o achosi risg uchel i fuddiannau unigolyn:

a) Defnyddio proffilio systematig a helaeth gydag effeithiau sylweddol;
b) Prosesu data categori arbennig neu ddata ynghylch troseddau a raddfa eang; neu

c) Monitro mannau y gall y cyhoedd fynd iddynt yn systematig ar raddfa fawr;
d) Defnyddio technolegau newydd;
e) Defnyddio data proffilio neu ddata categori arbennig i benderfynu ynglŷn â mynediad at wasanaethau;
f) Proffilio unigolion ar raddfa fawr;
g) Prosesu data biometrig neu genetig;
h) Paru data neu gyfuno setiau data o wahanol ffynonellau;
i) Casglu data personol o ffynhonnell ac eithrio'r unigolyn heb roi hysbysiad preifatrwydd iddynt ('prosesu anweledig');
j) Tracio lleoliad neu ymddygiad unigolion;
k) Proffilio plant neu dargedu gwasanaethau atynt; neu
l) Prosesu data a allai beryglu iechyd corfforol neu ddiogelwch yr unigolyn os ceir achos o danseilio diogelwch.

20.3 Hyd yn oed os nad oes arwydd penodol o risg uchel tebygol, mae'n arfer da cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data ar gyfer unrhyw brosiect newydd pwysig gan yr Awdurdod sy'n golygu defnyddio data personol.

20.4 Bydd yr Asesiad Effaith Diogelu Data:

a) Yn disgrifio natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion y prosesu;
b) Yn asesu anghenraid, cymesuredd a mesurau cydymffurfio;
c) Yn adnabod ac yn asesu'r risg i unigolion; a
d) Yn adnabod unrhyw fesurau ychwanegol i liniaru'r risgiau hynny.

20.5 Er mwyn asesu lefel y risg bydd yr Awdurdod yn ystyried tebygolrwydd a difrifoldeb unrhyw effaith ar unigolion. Gallai risg uchel ddeillio naill ai o debygolrwydd uchel o ryw niwed, neu debygolrwydd is o niwed difrifol.

20.6 Bydd staff yr Awdurdod yn ymgynghori â Swyddog Diogelu Data'r Awdurdod a, lle y bo'n briodol, unigolion ac arbenigwyr perthnasol. Dylai staff ymgynghori â phrosesyddion allanol perthnasol wrth gwblhau asesiad.

20.7 Os bydd yr Awdurdod yn adnabod risg uchel a'n bod ninnau'n methu â lliniaru'r risg honno, byddwn yn ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth cyn dechrau prosesu.

20.8 Bydd swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o fewn wyth wythnos, neu 14 wythnos mewn achosion cymhleth. Mewn achosion priodol gallant roi rhybudd ffurfiol i beidio â phrosesu'r data, neu wahardd ei brosesu'n gyfan gwbl.

20.9 Bydd dolen i Asesiadau Effaith Diogelu Data'n cael ei rhestru yn erbyn eitemau perthnasol ar y gofrestr diogelu data.

21. Dogfennaeth – Cofrestr Data

21.1 Mae gofyn i'r Awdurdod gadw cofnod o weithgareddau prosesu'r Awdurdod; gwneir hyn trwy gofrestr data'r Awdurdod.

21.2 Fel sy'n ofynnol dan Erthygl 30 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, bydd yr Awdurdod yn dogfennu'r wybodaeth ganlynol yn ei Gofrestr Data:

a) Enw a manylion cyswllt yr Awdurdod ac enw ac enw a manylion cyswllt Swyddog Diogelu Data'r Awdurdod;
b) Diben y prosesu gan yr Awdurdod;
c) Disgrifiad o'r categorïau o unigolion a'r categorïau o ddata personol;
d) Y categorïau o dderbynyddion data personol;
e) Manylion unrhyw drosglwyddiadau i drydydd gwledydd gan gynnwys dogfennu'r trefniadau diogelu sydd yn eu lle ar gyfer mecanweithiau trosglwyddo;
f) Rhestrau cadw;
g) Disgrifiad o'ch mesurau diogelwch technegol a sefydliadol.

21.3 Mae'r gofrestr hefyd yn dogfennu neu'n cysylltu ag agweddau eraill ar gydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a chyfreithiau diogelu data eraill ac mae'n seiliedig ar dempled y Comisiynydd Gwybodaeth i Reolyddion Data ei ddefnyddio ar gyfer cofrestrau:

a) Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu;
b) Y buddiannau dilys neu'r Dasg Gyhoeddus ar gyfer prosesu hawliau unigolion;
c) Bodolaeth prosesau penderfynu awtomataidd, gan gynnwys proffilio;
d) Ffynhonnell y data personol;
e) Cofnodion o gydsyniad;
f) Contractau rhwng rheolyddion a phrosesyddion;
g) Lleoliad data personol;
h) Adroddiadau Asesiad Effaith Diogelu Data;
i) Cofnodion o achosion o danseilio diogelwch data personol.

22. Contractau

22.1 Pryd bynnag y mae'r Awdurdod yn defnyddio prosesydd (trydydd parti sy'n prosesu data personol ar ran y rheolydd) bydd ganddo gontract ysgrifenedig, fel bod y ddau barti'n deall eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau.

22.2 Bydd contractau'n cynnwys yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan yr Awdurdod:

a) Cynnwys a hyd y prosesu;
b) Natur a diben y prosesu;
c) Y math o ddata personol a'r categorïau o wrthrychau data;
d) Rhwymedigaethau a hawliau'r rheolydd.

22.3 Bydd contractau fel sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data hefyd yn cynnwys fel isafswm y telerau canlynol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r prosesydd:

a) Gweithredu dim ond yn ôl cyfarwyddiadau ysgrifenedig y rheolydd;
b) Sicrhau bod dyletswydd cyfrinachedd ar bobl sy'n prosesu'r data;
c) Cymryd mesurau priodol i sicrhau diogelwch prosesu;
d) Ymgysylltu ag is-brosesyddion dim ond gyda chydsyniad rhag blaen gan y rheolydd ac o dan gontract ysgrifenedig;
e) Cynorthwyo'r rheolydd i ddarparu mynediad i'r gwrthrych a chaniatáu i wrthrychau data gael mynediad at eu hawliau dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data;
f) Cynorthwyo'r rheolydd i gyflawni ei rwymedigaethau dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data mewn perthynas â diogelwch prosesu, hysbysu ynghylch achosion o danseilio diogelwch data personol ac asesiadau effaith diogelu data;
g) Dileu neu ddychwelyd yr holl ddata personol i'r rheolydd fel a ofynnir ar ddiwedd y contract; a
h) Ymddarostwng i archwiliadau ac arolygiadau, darparu pa bynnag wybodaeth y mae ar y rheolydd ei angen i sicrhau bod y ddau ohonynt yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan Erthygl 28, a dweud wrth y rheolydd ar unwaith os gofynnir iddo wneud rhywbeth sy'n torri'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data neu un o gyfreithiau diogelu data eraill yr UE neu aelod-wladwriaeth.

22.4 Mae'r Awdurdod yn atebol am ei gydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a rhaid iddo benodi dim ond prosesyddion sy'n gallu darparu 'gwarantau digonol' y bydd gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'n cael eu hateb ac y bydd hawliau gwrthrychau data'n cael eu diogelu.

22.5 O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data rhaid i brosesyddion weithredu dim ond ar gyfarwyddiadau wedi'u dogfennu gan reolydd. Mae gan brosesyddion rai cyfrifoldebau uniongyrchol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a gallant gael dirwyon neu sancsiynau eraill os nad ydynt yn cydymffurfio.

23. Pryder neu Gŵyn ynglŷn â'r modd y mae'r Awdurdod yn Defnyddio Data

23.1 Y tîm neu'r adran sy'n dal eu data neu sy'n cynnig gwasanaeth iddynt ddylai fod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer gwrthrychau data. Dylai materion gael eu datrys ar lefel leol mor gyflym ac effeithiol â phosibl gyda Swyddogion a Rheolwyr yn datrys cwynion a cheisiadau am ddata a drosglwyddwyd.

23.2 Dylai Cwynion ynglŷn â Diogelu Data gael eu cyfeirio at Swyddog Diogelu Data'r Awdurdod: Sarah Burns (dpo@pembrokeshirecoast.org.uk)

23.3 Os nad yw unigolion yn fodlon ar y modd y mae'r Awdurdod wedi ymdrin â'u gwybodaeth gallant gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i godi pryder trwy'r dulliau canlynol:

E-bost: casework@ico.org.uk
Swyddogaeth sgwrsio byw ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/global/contact-us/live-chat/
Ffôn: 0303 123 1113. I siarad gyda hwy yn Gymraeg ffoniwch: 029 2067 8400.
Gwasanaeth Ffôn Testun: 01625 545860
Cyfeiriad Cyswllt: Customer Contact Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

24. Achosion o Danseilio Diogelwch Data a Hysbysu yn eu Cylch

24.1 Gall achosion o danseilio diogelwch data personol gael eu diffinio fel digwyddiad diogelwch sydd wedi effeithio ar gyfrinachedd, cyfanrwydd neu argaeledd data personol. Mae'n bwysig cofio bod achos o danseilio diogelwch yn ymwneud â mwy na dim ond colli data personol.

24.2 Gall achosion o danseilio diogelwch data personol gynnwys:

a) Mynediad gan gyflogai neu drydydd parti diawdurdod;
b) Datgelu data personol heb awdurdod, gan gynnwys anfon data personol at dderbynnydd anghywir;
c) Gweithred (neu ddiffyg gweithred) fwriadol neu ddamweiniol gan reolydd neu brosesydd;
d) dyfeisiau cyfrifiadurol neu ddogfennau papur sy'n cynnwys data personol yn cael eu colli neu eu dwyn;
e) Addasu data personol heb ganiatâd; ac
f) Colli argaeledd data personol, er enghraifft pan fo wedi cael ei amgryptio gan feddalwedd gwystlo, neu wedi cael ei cholli neu ei difa ar ddamwain.

24.3 Pan geir digwyddiad diogelwch, bydd yr Awdurdod yn gweithredu'n gyflym i ganfod a oes achos o danseilio diogelwch data wedi digwydd ac, os felly, bydd yn cymryd camau ar fyrder i fynd i'r afael â hynny. Fel rhan o'r asesiad hwn bydd yr Awdurdod yn cadarnhau tebygolrwydd a difrifoldeb y risg ganlyniadol i hawliau a rhyddid pobl a pha un a oes angen hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac unigolion yr effeithiwyd arnynt.

24.4 Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod i hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch mathau penodol o danseilio diogelwch data personol. Rhaid gwneud hyn o fewn 72 awr i ddod yn ymwybodol o'r achos o danseilio diogelwch, lle y bo'n ymarferol. Os yw'r achos o danseilio diogelwch yn debygol o arwain at risg uchel o effeithio'n niweidiol ar hawliau a rhyddid unigolion, rhaid i'r Awdurdod hysbysu'r unigolion hynny hefyd heb oedi gormodol. os nad yw'r Awdurdod yn gallu darparu manylion llawn o fewn 72 awr, byddwn yn egluro'r oedi wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac yn dweud wrthynt pryd yr ydym yn disgwyl cyflwyno rhagor o wybodaeth. Mae Erthygl 34(4) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn caniatáu i'r Awdurdod ddarparu'r wybodaeth ofynnol fesul cam, cyn belled ag y gwneir hyn heb ormod o oedi pellach. Gallai methu â hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am achos o danseilio diogelwch data pan fo'n ofynnol gwneud hynny arwain at ddirwy o hyd at 10 miliwn Ewro neu 2 y cant o drosiant byd-eang sefydliad. Gall y ddirwy gael ei chyfuno â phwerau cywirol eraill Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Erthygl 58.

24.5 Bydd yr Awdurdod yn dyrannu cyfrifoldeb am reoli achosion o danseilio diogelwch data i berson neu dîm pwrpasol. Wrth hysbysu ynghylch achos o danseilio diogelwch data, bydd yr Awdurdod yn darparu'r wybodaeth ganlynol fel a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data:

a) Disgrifiad o natur yr achos o danseilio diogelwch data personol gan gynnwys, lle y bo'n bosibl:

- Y categorïau o unigolion y mae'r achos yn ymwneud â hwy a bras amcan o'u nifer; a hefyd
- Y categorïau o gofnodion data personol y mae'r achos yn ymwneud â hwy a bras amcan o'u nifer;

b) Enw a manylion cyswllt Swyddog Diogelu Data'r Awdurdod;
c) Disgrifiad o ganlyniadau tebygol yr achos o danseilio diogelwch data personol
d) Disgrifiad o'r mesurau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i ymdrin â'r achos o danseilio diogelwch data personol, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, y mesurau a gymerwyd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol posibl.

24.6 Pan fo'r Awdurdod yn hysbysu unigolyn ynghylch achos o danseilio diogelwch data bydd yn darparu gwybodaeth mewn iaith ddiamwys a chlir am natur yr achos o danseilio diogelwch data personol ac, o leiaf:

a) Enw a manylion cyswllt Swyddog Diogelu Data'r Awdurdod;
b) Disgrifiad o ganlyniadau tebygol yr achos o danseilio diogelwch data personol; ac
c) Disgrifiad o'r mesurau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i ymdrin â'r achos o danseilio diogelwch data personol a chan gynnwys, lle y bo'n briodol, y mesurau a gymerwyd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol posibl.

24.7 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod staff yn gwybod sut i adnabod achos o danseilio diogelwch data personol. Bydd staff yn cael eu hannog i hysbysu ynghylch pob achos o danseilio diogelwch data personol (ni waeth pa mor fach) gan ddilyn y broses a nodir yn y Canllawiau Diogelu Data ar gyfer Staff.

24.8 Bydd yr Awdurdod yn cofnodi pob achos o danseilio diogelwch data, ni waeth pa un a oes angen hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn eu cylch ai peidio. Bydd dolenni i gofnodion o'r achosion hynny o danseilio diogelwch data'n cael eu hychwanegu at y gofrestr data wrth iddynt ddigwydd. Bydd yr Awdurdod yn dogfennu ffeithiau'r achos o danseilio diogelwch data, ei effeithiau a'r cam cywirol a gymerwyd. Bydd yr Awdurdod yn ymchwilio pa un a ddeilliodd yr achos o danseilio diogelwch data o ganlyniad i wall dynol ynteu mater systemig a bydd yn ystyried sut y gellir atal yr un peth rhag digwydd eto – boed trwy brosesau gwell, hyfforddiant pellach neu gamau cywirol eraill.

24.9 Lle y bo'n berthnasol gall yr Awdurdod hefyd ystyried hysbysu trydydd partïon megis yr heddlu, yswirwyr, cyrff proffesiynol, neu fanciau neu gwmnïau cardiau credyd a all helpu i leihau'r risg o golled ariannol i unigolion.

25. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Hysbysiad

25.1 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; mae wedi'i gofrestru dan rif Z6910336. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod yr hysbysiad hwn yn ddisgrifiad cywir o brosesu a wneir gan yr Awdurdod.

25.2 Y Swyddog Diogelu Data sy'n gyfrifol am gyflwyno'r hysbysiad hwn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Pan fo'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni gweithred brosesu nad yw wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad hwn, bydd y swyddog sy'n gyfrifol yn hysbysu'r Swyddog Diogelu Data mewn da bryd er mwyn gallu diwygio'r hysbysiad (os oes angen) o fewn 28 diwrnod i ddechrau prosesu.

25.3 Mae prosesu data personol gan Aelodau wedi'i gwmpasu gan brif hysbysiad corfforaethol yr Awdurdod mewn perthynas â gwybodaeth a ddelir gan yr Awdurdod yn unig.

25.4 Mae methu â hysbysu neu gynnal hysbysiad anghyflawn neu anghywir yn drosedd.

26. Cyfrifoldeb am Weithredu'r Polisi

26.1 Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb am sicrhau:

a) Bod pawb sy'n rheoli a/neu'n trin gwybodaeth bersonol yn deall eu bod yn gytundebol gyfrifol am ddilyn arfer da o ran diogelu data, ac y gallent fod yn cyflawni troseddau os ydynt yn fwriadol yn ceisio cyrchu neu ddatgelu data personol heb awdurdod;
b) Bod pawb sy'n rheoli a/neu'n trin gwybodaeth bersonol wedi'u hyfforddi'n briodol i wneud hynny;
c) Bod pawb sy'n rheoli a/neu'n trin gwybodaeth bersonol yn cael eu goruchwylio'n briodol ac yn ymwybodol o weithdrefnau penodol sy'n berthnasol i'w tîm neu rolau eu swyddi;
d) Bod unrhyw un sy'n dymuno gwneud ymholiadau ynghylch trin gwybodaeth bersonol, boed yn aelod o staff neu'n aelod o'r cyhoedd, yn cael cyngor fel y bo angen;
e) Yr ymdrinnir ag ymholiadau ynghylch trin gwybodaeth bersonol yn brydlon ac yn gwrtais;
f) Bod dulliau o drin gwybodaeth bersonol yn cael eu hasesu a'u gwerthuso'n rheolaidd;
g) Bod cyflogeion yn ymwybodol o'r camau gweithredu sy'n ofynnol os ceir achos o Danseilio Diogelwch Data;
h) Bod y Gofrestr Data a Gwybodaeth am Breifatrwydd yn cael eu diweddaru'n gyson;
i) Bod Asesiadau Effaith Data'n cael eu cwblhau lle y bo'n ofynnol;
j) Bod canllawiau ar gyfer staff yn cael eu diweddaru ac mae gweithgareddau codi ymwybyddiaeth rheolaidd yn cael eu cynnal.

26.2 Mae gan Aelodau gyfrifoldeb am sicrhau:

a) Eu bod yn monitro perfformiad yr Awdurdod o ran Cydymffurfio â Chyfraith Diogelu Data, gan gynnwys mynd ati'n barhaus i fonitro risgiau a nodwyd ar y gofrestr risgiau ac ymateb i unrhyw bryderon a godwyd gan y Swyddog Diogelu Data neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
b) Bod adnoddau digonol yn eu lle i ateb gofyniad y polisi hwn a chyfraith diogelu data;
c) Eu bod yn penodi Swyddog Diogelu Data ar gyfer yr Awdurdod;
d) Eu bod yn ymlynu wrth y polisi hwn a pholisïau perthnasol eraill wrth drin data personol o fewn eu rôl fel un o Aelodau'r Awdurdod;
e) Eu bod yn hysbysu ynghylch unrhyw achosion o danseilio diogelwch data (ni waeth pa mor fach) gan ddilyn y weithdrefn a nodir yn y Canllawiau Diogelu Data ar gyfer Staff;
f) Eu bod yn hysbysu'r Swyddog Diogelu Data ynghylch unrhyw bryderon ac yn ceisio cyngor gan y Swyddog hwnnw.

26.3 Mae gan y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli gyfrifoldeb am sicrhau:

a) Eu bod yn darparu arweinyddiaeth ar gydymffurfio â chyfraith diogelu data ac yn hyrwyddo'r arfer o gyflawni egwyddorion diogelu data ar draws yr Awdurdod;
b) Eu bod yn ymateb i unrhyw bryderon a godir gan y Swyddog Diogelu Data ac yn cydymffurfio ag adran 19 yn y polisi;
c) Eu bod yn ymateb i unrhyw gamau gorfodi yn eu herbyn gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
d) Eu bod yn sicrhau bod adnoddau digonol yn eu lle i'w gwneud yn bosibl cyflawni mesurau atebolrwydd a gweithredu;
e) Bod y gofrestr risgiau, y gofrestr data, polisïau perthnasol a hysbysiadau preifatrwydd ar draws y sefydliad yn eu lle ac yn cael eu diwygio fel y bo angen;
f) Bod penderfyniadau ynglŷn â phrosiectau a chynigion yn cael eu goleuo gan ddeilliannau asesiadau effaith data;
g) Eu bod yn ymlynu wrth y polisi hwn wrth drin data personol yn eu rôl;
h) Bod y polisi hwn a pholisïau cysylltiedig eraill yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

26.4 Mae gan y Tîm Arwain gyfrifoldeb am sicrhau:

a) Bod deilliannau asesiadau effaith diogelu data'n cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am brosiectau a chynigion newydd;
b) Eu bod yn rhoi sylw i ddatrysiadau llywodraethu gwybodaeth sefydliadol sy'n hyrwyddo arfer gorau ac yn helpu i leihau i'r eithaf y risg o achosion o danseilio diogelwch data ac yn datblygu datrysiadau o'r fath fel grŵp;
c) Bod Mecanweithiau Llywodraethu Gwybodaeth sy'n ymwneud â rheoli dogfennau ar y gyriant a rennir yn cael eu dilyn a'u bod yn adnabod camau gweithredu i fynd i'r afael â materion sy'n codi.

26.5 Mae gan y Swyddog Diogelu Data gyfrifoldeb am sicrhau:

a) Eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau a nodir yn adran 19 o'r polisi hwn.

27.6 Mae gan y Rheolwr TG gyfrifoldeb am sicrhau

a) Eu bod yn cyflawni dyletswyddau diogelwch TG a nodir yn y Polisi Defnyddwyr TGCh a'r polisi hwn, gan fod yn ymatebol i newidiadau mewn arfer gorau o ran diogelwch.

26.7 Mae gan Arweinwyr Timau gyfrifoldeb am sicrhau:

a) Bod gweithdrefnau diogelu data perthnasol yn eu lle ac yn cael eu dilyn gan staff o fewn eu tîm;
b) Bod staff newydd ar adeg sefydlu'n cael canllawiau a hyfforddiant perthnasol ar weithdrefnau'r Awdurdod a'r tîm lle mae diogelu data yn y cwestiwn yn ôl yr hyn sy'n berthnasol i'w rôl;
c) Bod hyfforddiant diweddaru a chanllawiau'n cael eu rhoi i aelodau'r tîm os oes data newydd yn cael ei gasglu a/neu ffyrdd newydd o broses neu fylchau mewn gwybodaeth yn cael eu hadnabod;
d) Eu bod yn hysbysu'r Swyddog Diogelu Data am newidiadau a diwygiadau y mae eu hangen i'r Gofrestr Data;
e) Eu bod yn sicrhau bod hysbysiadau preifatrwydd perthnasol a chofnodion a gwybodaeth ynglŷn â chydsyniad yn bodoli lle mae eu hangen ar gyfer eu hadran;
f) Eu bod yn cwblhau Asesiadau Effaith Diogelu Data fel sy'n ofynnol neu'n cynorthwyo staff o fewn eu tîm i gwblhau asesiad;
g) Eu bod yn monitro trefniadau cadw a storio cofnodion o fewn y tîm i sicrhau eu bod yn dilyn polisi rheoli cofnodion yr Awdurdod;
h) Bod gwybodaeth cyflogeion yn cael ei phrosesu yn unol â'r polisi hwn, y polisi rheoli cofnodion a chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr adran bersonél;
i) Eu bod yn ymlynu wrth y polisi hwn a pholisïau perthnasol eraill wrth drin data personol;
j) Eu bod yn hysbysu ynghylch unrhyw achosion o danseilio diogelwch data (ni waeth pa mor fach ydynt) gan ddilyn y weithdrefn a nodir yn y Canllawiau Diogelu Data ar gyfer Staff;
k) Eu bod yn hysbysu'r Swyddog Diogelu Data ynghylch unrhyw bryderon ac yn ceisio cyngor gan y Swyddog hwnnw.

26.8 Mae gan Staff unigol gyfrifoldeb am sicrhau:

a) Eu bod yn dilyn y Canllawiau Diogelu Data ar gyfer Staff a gweithdrefnau diogelu data perthnasol ar gyfer yr Awdurdod neu sy'n benodol ar gyfer eu tîm;

b) Eu bod yn mynychu sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth a drefnir ac yn hysbysu eu rheolwr llinell os oes arnynt angen hyfforddiant neu ganllawiau ychwanegol;
c) Eu bod yn hysbysu eu rheolwr tîm neu'r Swyddog Diogelu Data'n uniongyrchol am newidiadau a diwygiadau y mae eu hangen i'r gofrestr data;
d) Eu bod yn cwblhau Asesiadau Effaith Diogelu Data fel sy'n ofynnol gyda chymorth eu harweinydd tîm a'r Swyddog Diogelu Data;
e) Eu bod yn dilyn rhestr cadw cofnodion yr Awdurdod;
f) Eu bod yn ymlynu wrth y polisi hwn a pholisïau perthnasol eraill wrth drin data personol;
g) Eu bod yn hysbysu'r Swyddog Diogelu Data ynghylch unrhyw bryderon ac yn ceisio cyngor gan y Swyddog hwnnw.

26.9 Mae gan wirfoddolwyr gyfrifoldeb am sicrhau:

a) Eu bod yn ymlynu wrth y polisi hwn a'r Canllawiau Diogelu Data ar gyfer Staff wrth drin data personol;
b) Eu bod yn dilyn y Canllawiau Diogelu Data ar gyfer Staff a gweithdrefnau diogelu data perthnasol ar gyfer y tîm y maent yn gwirfoddoli gydag ef os ydynt yn trin data personol;
c) Eu bod yn hysbysu ynghylch unrhyw achosion o danseilio diogelwch data (ni waeth pa mor fach ydynt) gan ddilyn y weithdrefn a nodir yn y Canllawiau Diogelu Data ar gyfer Staff;
d) Eu bod yn hysbysu'r Swyddog Diogelu Data ynghylch unrhyw bryderon ac yn ceisio cyngor gan y Swyddog hwnnw.

26.10 Mae gan bartneriaid a chontractwyr gyfrifoldeb am sicrhau:

a) Eu bod hwy a'u holl staff sydd â mynediad at ddata personol a ddelir neu a brosesir tros ac ar ran yr Awdurdod yn ymwybodol o'r polisi hwn ac wedi'u hyfforddi'n llawn yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau dan gyfraith diogelu data a'u bod yn ymwybodol o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn.
b) Bod Swyddog Diogelu Data'r Awdurdod yn cael ei hysbysu ynghylch unrhyw ddigwyddiadau diogelwch y sylwyd arnynt neu y tybir eu bod wedi digwydd neu bryderon ynghylch diogelwch.
c) Eu bod yn caniatáu archwiliadau diogelu data gan yr Awdurdod o ddata a ddelir ar ei ran os gofynnir yn unol â threfniadau cytundebol.

27. Polisïau a Dogfennau Ategol Cysylltiedig Eraill

27.1 Dylai'r polisi hwn gael ei ddehongli a'i roi ar waith mewn perthynas â pholisïau cysylltiedig eraill. Mae torri un o'r polisïau hyn yn debygol o fod yn gyfystyr â thorri'r polisi hwn hefyd. Cyhoeddir polisïau allanol ar wefan yr Awdurdod [3], a gellir cael mynediad at bolisïau Mewnol o fewnrwyd yr Awdurdod (Parcnet).

Mae'r polisïau cysylltiedig hyn yn cynnwys y canlynol, ond nid y canlynol yn unig:

a) Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth (Allanol)
b) Polisi Defnyddwyr TGCh (Mewnol)
c) Polisi Diogelwch Gwybodaeth a Data (Mewnol)
d) Datganiad Diogelu (Mewnol)
e) Canllawiau ar y Cyfryngau Cymdeithasol (Mewnol)

27.2 Mae'r dogfennau ategol a'r ffurflenni canlynol ar gael o wefan yr Awdurdod [3]

a) Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth
b) Hysbysiad Preifatrwydd
c) Ffurflen Cais Gwrthrych am Wybodaeth

27.3 Mae'r dogfennau ategol a'r ffurflenni canlynol ar gael o fewnrwyd yr Awdurdod (Parcnet):

a) Canllawiau Diogelu Data ar gyfer Staff
b) Y Gofrestr Diogelu Data a'r Rhestr Cadw Cofnodion
c) Templed ar gyfer Asesiad Effaith Diogelu Data
d) Ffurflen Hysbysu ynghylch Tanseilio Diogelwch Data

28. Monitro ac Adolygu

28.1 Bydd y broses o roi'r polisi hwn ar waith ac effeithiolrwydd y polisi'n cael eu monitro a'u hadolygu gan Swyddog Diogelu Data'r Awdurdod, yr Uwch Dîm Rheoli ac Aelodau'r Awdurdod.

28.2 Efallai y bydd Archwilwyr Mewnol yn cynnal archwiliadau diogelu data o bryd i'w gilydd er mwyn monitro cydymffurfiaeth â chyfraith diogelu data a'r polisi hwn. Bydd adroddiadau ar ddiogelu data a gweithrediad y polisi hwn yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol.

28.3 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob 3 blynedd neu i ymateb i gyfreithiau, canllawiau ar arfer gorau newydd mewn perthynas â diogelu data.

28.4 Mae'r polisi hwn wedi cael ei baratoi yn unol â Chanllawiau cyfredol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth [2].

30. Cyfeiriadau		
1	Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru	http://www.waspi.org/home
2	Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	https://ico.org.uk/
3	Gwefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	www.pembrokeshirecoast.wales
4	Hysbysiad Preifatrwydd Trosfwaol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	https://www.pembrokeshirecoast.wales/default.asp?PID=413
5	Ffurflen Cais Gwrthrych am Wybodaeth yr Awdurdod	www.pembrokeshirecoast.wales

31. Hanes Fersiynau		
Fersiwn	Dyddiad y Mae Mewn Grym	Crynodeb o'r Newidiadau
2	4 Medi 2019	• Polisi wedi'i Gymeradwyo
2	12 Ebrill 2021	• Enw'r Swyddog Diogelu Data wedi'i ddiwygio